# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 5 Mawrth 2015 i'w hateb ar 10 Mawrth 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynaliadwyedd meddygfeydd teulu yng nghefn gwlad Cymru? OAQ(4)2160(FM)

2. **William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut y bu Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cydweithio i hyrwyddo Cymru yn ystod ymweliad Dug Caergrawnt â Tsieina? OAQ(4)2164(FM)

3. **Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau mamolaeth yng Nghymru? OAQ(4)2162(FM)

4. **Keith Davies (Llanelli):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi economi gorllewin Cymru? OAQ(4)2167(FM)**W**

5. **Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol? OAQ(4)2153(FM)

6. **Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi ynglŷn â datganoli mwy o rymoedd i Gymru? OAQ(4)2169(FM)**W**

7. **Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ariannu ysgolion ym Mhowys? OAQ(4)2156(FM)

8. **Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwario'r cyllid a gaiff ei ddyrannu iddynt yn ddoeth? OAQ(4)2159(FM)

9. **Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Phrif Weinidog y DU am amserlen

weithredu ar gyfer y materion lle y nodwyd bod consensws yn Atodiad A y papur gorchymyn Pwerau at Bwrpas? OAQ(4)2158(FM)**W**

**10. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**: Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i leihau'r broblem o unigrwydd ac arwahanrwydd ymhlith pobl hŷn? OAQ(4)2157(FM)

**11. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am hawliadau esgeulustod meddygol yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)2155(FM)

**12. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol gwasanaethau meddygon teulu ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)2165(FM)

**13. Aled Roberts (North Wales)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau mamolaeth yn Ysbyty Glan Clwyd yn dilyn ymyrraeth y cyngor iechyd cymuned wythnos ddiwethaf? OAQ(4)2166(FM)**W**

**14. Lynne Neagle (Torfaen)**: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i baratoi ar gyfer cyflwyno credyd cynhwysol yn Nhorfaen? OAQ(4)2163(FM)

**15. Byron Davies (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynaliadwyedd economaidd Maes Awyr Caerdydd? OAQ(4)2168(FM)